

Beirniadaeth – Medal y Dysgwyr **Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**

Ar fy rhan i a Nerys, fy nghyd-feirniad, hoffwn i ddiolch yn fawr iawn i'r Eisteddfod eleni am y fraint o gael beirniadu'r gystadleuaeth hon – ac yn wir mae wedi bod yn fraint bod yng nghwmni'r bobl ifanc hyn heddiw wrth i ni sgwrsio â nhw, â'u gweld yn gwneud y gwahanol dasgau a gweld eu brwdfrydedd â'u hegri. Yn sicr, maen nhw wedi mwynhau'r profiadau ac wedi elwa'n fawr. Ac rydyn ni, fel beirniaid, yn sicr y gwnân nhw barhau i ddefnyddio'u Cymraeg yn y dyfodol ar ôl gwneud cymaint o ymdrech i'w dysgu.

Mae hon yn gystadleuaeth sy'n mynd yn ôl i 1987 yn Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Ogwen. A'r enillydd cyntaf oedd disgybl ysgol o'r enw Alex Borders, disgybl fel mae'n digwydd o Brestatyn o fewn dalgylch yr Eisteddfod hon eleni.

Hyfryd felly oedd gweld yr holl gystadleuwyr heddiw yn y ddwy gystadleuaeth yn ymroi i siarad Cymraeg â'i gilydd a chael hwyl wrth wneud.

Ar gyfer cystadleuaeth Medal y Dysgwyr eleni mae yna un sy wedi cael ei osod ar y brig.

Mae'r person yma yn sgwrsio'n naturiol iawn ac yn rhugl iawn. Mae wedi dysgu Cymraeg o fewn ychydig iawn o amser, gan fanteisio ar y cyfle i ddysgu Cymraeg ar-lein yn ystod y cyfnod clo. Mae wedi cyrraedd lefel uchel iawn o ruglder ac yn erbyn hyn yn darllen nofelau i Gymry Cymraeg ac yn mynychu gweithgareddau Cymraeg yn ei gymuned. Mae wir wedi meistrolï'r Gymraeg ac yn llawn haeddu ennill y gystadleuaeth.

Ac felly, y person sy'n ennill Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022 yw Joshua Osborne.